

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 37

Key language

Byth/Erioed
Am
Mae ...arna i

New Words

Erbyn hyn	by now
Hollol farw	completely dead
Dod â	to bring
Ymddygiad	behaviour
Gollwng	to drop
Tywallt	to pour (with rain)
Stido (NW)	to pour (with rain)
Creulon	cruel
Ffwdanu	to bother
Yn barod	ready
Canlyniadau'r profion	test results
Llenwi	to fill
Yn anffodus	unfortunately
Mentro	to venture
Oerfel	cold weather
Gwlychu	to get wet
Chwaith	either
Pam lai?	Why not?
Malio botwm corn	to give a damn
Swnian (NW)	to moan
Di-ddiwedd	endless
Tynnu	to pull

Main Grammatical Points

Byth/Erioed

We've looked at the words byth and erioed and noted that generally erioed is used with the past tenses of the verb and that byth is used with the present and future tenses.

However erioed can be used with any tense to express astonishment.

Gerddaist ti erioed yr holl ffordd!
You never walked all the way!

Dydych erioed wedi prynu ty newydd!
You've never bought a new house!

Dwyt ti erioed yn hanner cant oed!
You're never fifty years of age!

Byth with various tenses conveys the meaning 'still' or 'ever since'

Mae'r ty yno byth - The house is still there

Dydy hi ddim wedi ei weld byth - She hasn't seen him since

Byth can also be used with an imperfect negative sentence to mean would never or never used to.

Doeddet ti byth yn siarad â fi yn yr ysgol - You never used to speak to me in school
Or You would never speak to me in school

And finally

Byth in its mutated form – fyth – can be used after the comparative form of the adjective to mean still

Gwell fyth – better still

Pwysicach fyth - more important still or far more important.

Am

Note the use of am in front of a noun to express astonishment or amazement.

Agnes says - Am law! which means what rain!

Here are some more examples:

Am stori ryfedd!	What a strange story!
Am ferch dda!	What a good girl!
Am noson!	What a night!
Am hwy!	What fun!

Note that am causes a soft mutation to the following noun

Mae ... arna i

Rhodri says:

Mae syched arna i	I'm thirsty – Literally I have a thirst on me	Mae syched arna i
Oes syched arnat ti?	Are you thirsty?	
Does dim syched arna i	I'm not thirsty	

Mae eisiau bwyd arna i - I'm hungry follows the same pattern

Ysbyty Brynaber: Episode 109

Wendy is in hospital and Jenny Saunders calls to see her. Agnes and Jenny meet up and they discuss Agnes' marital problems.

Geirfa

Erbyn hyn	by now
Hollol farw	completely dead
Dod â	to bring
Ymddygiad	behaviour
Gollwng	to drop
Tywallt	to pour (with rain)
Stido (NW)	to pour (with rain)
Creulon	cruel

Golygfa 1

Wendy - ...Beth sy'n bod ar hwn? Beth ddiawl nawr eto? This radio's just caved in on me, Elaine...Mae fe'n 'dead as a dodo'. Ddim hyd yn oed a mouse squeak...

Jenny - Pnawn da, Wendy...

Wendy - Hi.

Jenny - Oes problem?

Wendy - This two-bit radio...Smo fe'n gweithio...It's been playing up all morning...Fading in and fading out on me...

Jenny - Ga i weld?

Wendy - Wrth gwrs. Be my guest...

Jenny - Sut wyt ti'n teimlo erbyn hyn?

Wendy - Dw i'n timlo'n ffein...

Jenny - Wyt ti?

Wendy - Ydw. Well enough to leave this dump and go home.

Jenny - Ond ddim cweit eto...Fel ti'n gwybod: mae dy 'cervix' di yn dal ychydig bach yn 'dilated'...

Wendy - But the bleeding's stopped, the pain's gone.

Jenny - Ond mae hi'n well bod yn saff on'd ydy?

Wendy - Os wyt ti'n dweud...

Jenny - Mae'r radio fach yma'n hollol farw.

Wendy - Told you.

Jenny - Pam na wnei di wrando ar radio'r ysbyty?

Wendy - Can't stand headphones...With them on, it feels like someone's drilling words right into my brain.

Jenny - ...O, felly?

Wendy - Ie. Big time problem erioed...

Jenny - Wyt ti eisiau i mi ddod â batris newydd iti?

Wendy - Nac ydw. Dim diolch. Thanks for offering, anyway. Wna i ofyn i ...partner fi.

Jenny - Brian Rees.

Wendy - Dyna ti. Brian Rees. Gw r Agnes Rees. Ward Sister y ward yma. Who oddly enough, I haven't actually seen while I've been laid up here. Ydy hi'n cadw low profile neu beth...?

Jenny - Oedd hi ddim yn gweithio tros y penwythnos.

Wendy - A beth am ddod?

Jenny - Dw i ddim yn rhy siwr.

Wendy - Really...?

Jenny - Na.

Wendy - Funny.

Jenny - Pam wyt ti'n dweud hynny?

Wendy - I could have sworn that I saw her through that door yesterday afternoon...Ond cofia di, Doc...Efallai 'mod i'n mistaken...Efallai 'mod fi wedi gweld rhywun arall...Rhywun sydd the spitting image of beloved Sister Agnes Rees...You have a very strong look of quiet disapproval...

Jenny - Fi? Na. Fi fasai'r diwetha i gondemio ymddygiad neb.

Wendy - Ymddygiad? What's that?

Jenny - Behaviour. Faswn i byth yn pwyntio bys at neb.

Golygfa 2

Agnes - Mam bach! Am law...! O! Jenny - ti sy 'na...

Jenny - Ti wedi gollwng dy mobile...

Agnes - Beth?

Jenny - Dy mobile.

Agnes - Ie! Dere i mewn o'r glaw...

Jenny - Mae hi'n bwrw'n drwm.

Agnes - Ydy. Bwrw yn drwm ofnadwy.

Jenny - Dim ond digwydd dy weld ti yn gollwng dy ffôn symudol wrth redeg am dy gar di wnes i.

Agnes - Dw i wedi colli dau ffôn symudol yn barod.

Jenny - Edrych ar y glaw 'ma nawr 'te!

Agnes - Tywallt i lawr.

Jenny - Stido bwrw glaw. Wyt ti'n gweithio 'fory?

Agnes - Nac ydw, dw i ddim. Diolch i'r drefn.

Jenny - Does dim rhaid iti boeni. Dw i'n meddwl bydd Wendy Keating yn mynd adre bore 'fory. Y peth cynta bore 'fory.

Agnes - Diolch byth! O'dd jest meddwl amdani ar y ward 'na'n ddigon i'n hala i'n...wel, i deimlo yn reit dost.

Jenny - Ond ti a Brian yn ôl hefo'ch gilydd?

Agnes - Smo ni wir wedi gwahanu.

Jenny - Heb wahanu? Wir?

Agnes - Ni'n bendant 'da'n gilydd.

Jenny - A ti'n hapus eich bod chi hefo'ch gilydd?

Agnes - Mor hapus â wy'n gallu bod. Wy'n gwybod mod i'n mynd i swno'n greulon ofnadw nawr: ond o'n i'n gobeitho, wir yn gobeitho y bydde Wendy yn colli'r babi 'na.

Ysbyty Brynaber: Episode 110

Brian calls Wendy on the phone, she is not happy that Brian has not been to see her in hospital.

Arwyn Saunders visits Wendy on his ward rounds.

Brian calls from the garage to say that he will be working late. Agnes gives him a stern warning

Geirfa

Ffwdanu	to bother
Yn barod	ready
Canlyniadau'r profion	test results
Llenwi	to fill
Yn anffodus	unfortunately

Golygfa 1

Brian - Hello? Brian Rees...

Wendy - ...Fi sy' 'ma.

Brian - Wendy...Sut wyt ti?

Wendy - Ble wyt ti wedi bod?

Brian - Edrycha -

Wendy - Pam wyt ti heb ddod i 'ngweld i?

Brian - Wendy...

Wendy - Dw i wedi bod yn 'stuck' yn y ward yma ers dyddiau a ti heb ffwdanu troi lan un waith i 'ngweld i...

Brian - Wnes i ffonio chdi...

Wendy - That was Sunday evening!

Brian - Ond roedd rhaid imi fynd i Lundain...

Wendy - So when did you get back? And why didn't you phone me? Or come and see me? Being your usual charming self, Bri you could at least have had the decency to bring me a bottle of Lucozade and a bunch of grapes! Is that too much to ask?

Brian - Nac ydy, wrth gwrs...

Wendy - It's her isn't it? That wife of yours? You're still running scared of her? But what have you got to be afraid of? Eh?

Brian - Wendy, edrycha, dw i yn y garej ac mae gen i gwsmer yn sefyll o 'mlaen i -

Wendy - Of course. That's much more important than me. What have I got to complain about? After all, I've only suffered a near miscarriage.

Arwyn - Miss Keating?

Wendy - Doctor Saunders.

Arwyn - A sut hwyliau sydd arnoch chi erbyn hyn?

Wendy - Barod i fynd gartre. A chi?

Arwyn - Fi beth?

Wendy - Sut hwyliau sydd arnoch chi?

Arwyn - Eitha. Ar fy ffordd i weld y Registrar ydw i.

Wendy - The usual N.H.S. hassles and fiascos?

Arwyn - Siwr o fod - o nabod Kenneth. Ydych chi wedi cael canlyniadau'r profion eto 'te?

Wendy - Dyna beth wy'n dishgwyl am.

Arwyn - Wel! Wel!

Wendy - Beth?

Arwyn - Dyna beth wy'n dishgwyl am! Smo chi fod i ddweud hynny.

Wendy - Nac ydw i? Pam?

Arwyn - Mae e'n hollol anghywir.

Wendy - Ydy e?

Arwyn - Ydy. Wrth gwrs...

Wendy - Beth dw i fod i ddweud 'te?

Arwyn - Am dyna beth dw i'n dishgwyl.

Wendy - Am dyna beth dwi'n dishgwyl.

Arwyn - Ie. A phan dw i'n gofyn: "Ydych chi wedi cael canlyniadau'r profion eto?" Rydych chi fod i ateb...

Wendy - Am dyna beth wy'n dishgwil. And once I've had them final test results, I can bugger off home then and not have to sit here in this crappy old ward listening to pontificating, boring old fart like you!

Arwyn - ...Os taw felly chi'n timlo.

Wendy - That's exactly sut wy'n teimlo yn, pal. O.K.?

Golygfa 2

Agnes - Paid ag yfed gormod o'r Coke 'na nawr...

Rhodri - Mae syched arna i.

Agnes - Rhodri, ti ddim eisiau llenwi dy fola cyn dechre bwyta. Fe fydd dy swper di ar y ford mewn rhyw hanner awr...Rhodri?

Rhodri - Beth?

Agnes - Wnei di ateb y ffôn? Wy'n brysur...Rhodri...Glywest ti fi?

Rhodri - Dw i eisiau gweld y Simpsons, Mam!

Agnes - Diolch am dy help, Rhodri! Helo...?

Brian - Agnes...?

Agnes - Brian? Ble rwyd ti?

Brian - Yn y garej...

Agnes - Yn y garej? O hyd?

Brian - Ydw... Yn anffodus...

Agnes - Fydd swper ar y ford cyn bo hir iawn.

Brian - Dyna pam dw i'n ffonio.

Agnes - Pam?

Brian - 'Hassle'.

Agnes - Pa fath o 'hassle'?

Brian - Fyddda i ddim yn ôl adra tan tua naw.

Agnes? Wyt ti'n dal yna?

Agnes - Ydw...

Brian - Glywaist ti be ddwedais i?

Agnes - Do...

Brian - Sori. Ond mae Tony yn sâl.

Agnes - Ti ddim yn mynd i'r ysbyty wyt ti?

Brian - Be...?

Agnes - Ti ddim yn mynd i'r ysbyty?

Brian - Ysbyty? Nag ydw siwr...

Agnes - Siwr?

Brian - Ydw. Dwi ddim yn mynd i'r ysbyty.

Agnes - Cofia beth ddweddes i: un celwydd a wna i fyth, byth faddau iti.

Brian - Does dim celwydd, Agnes. A fydd dim celwydd. Dw i ddim yn mynd i'r ysbyty. A fydda i yn ôl adra am naw. Iawn.

Ysbyty Brynaber: Episode 111

Jenny receives a phone call from her mother in law. Jenny tells her exactly what she thinks of her.

Brian calls to see Wendy in hospital. As he's about to leave he bumps into Arwyn Saunders.

Geirfa

Mentro	to venture
Oerfel	cold weather
Gwlychu	to get wet
Chwaith	either
Pam lai?	Why not?
Malio botwm corn	to give a damn
Swnian (NW)	to moan
Di-ddiwedd	endless
Tynnu	to pull

Golygfa 1

Arwyn - Ydw i eisiau cot heno, dwed?

Jenny - Faswn i ddim yn mentro mynd allan heb got.

Arwyn - Ti'n meddwl?

Jenny - Roedd hi'n bwrw glaw yn drwm iawn rhyw chwarter awr yn ôl.

Arwyn - Dim ond i'r car dw i'n gorfod cerdded, ynte? Ac o'r car i'r ysbyty. Prin fydda i mas yn yr oerfel o gwbl...

Jenny - Ond dwyt ti ddim isio gwlychu chwaith.

Arwyn - Nag ydw. Ie. Pam lai? Cot amdani. Hwyl.

Jenny - Hwyl.

Arwyn - Cysga'n sownd. A wela i ti bore 'fory...

Jenny - Helo? Jenny Saunders yn siarad...Na. Mae Arwyn newydd adael y ty jest rwan...

Jenny - Dweud celwydd? Dydw i ddim yn dweud celwydd. Pam faswn i eisiau dweud celwydd? Does gen i ddim rheswm i ddweud celwydd wrthoch chi, Mrs Saunders. Mae Arwyn newydd fynd i'r ysbyty i weithio shifft nos. Iawn? Peidiwch â 'nghoelio fi 'te! Na. Does dim ots gen i beth ydych chi'n feddwl. Na beth ydych chi'n ei feddwl ohona i chwaith. Coeliwch fi a dydw i ddim yn malio botwm corn amdanoch chi na'ch hen swnian di-ddiwedd. Iawn?

Golygfa 2

Wendy - Don't stuff your face with my black seedless grapes you cheeky sod!

Brian - Dw i heb gael swper eto.

Wendy - Dw i'n falch dy fod ti wedi dod i 'ngweld fi.

Brian - Dw i wedi bod mor brysur...Rhwyng mynd draw i Lundain a phob un dim. Ond dw i'n falch fod bob dim wedi mynd yn iawn i chdi. A bod ti a'r babi tu mewn iti yn O.K.

Wendy - A fi. Really glad. Rho gusan i fi...

Brian - A ti'n mynd adra bore 'fory?

Wendy - Ydw. First thing.

Brian - Mi faswn i'n dod i dy nôl di yn y car...ond...

Wendy - Ond beth?

Brian - Dw i mor brysur yn y garej...

Wendy - I'll get a taxi.

Brian - Ti'n siwr?

Wendy - Ydw.

Brian - Oes gen ti bres?

Wendy - Oes. Dw i eisiau dy weld ti yfory, Brei.

Brian - Gei di ngweld i amser cinio yfory.

Wendy - Is that a promise or a threat?

Brian - Addewid.

Wendy - Promise.

Brian - Ie.

Wendy - I'm sorry that I was so nasty to you on the phone. I do know that things aren't easy for you and that I can't have everything my own way. That there are things to be sorted out...

Brian - A mi sortia i nhw hefyd. Ond mae'n rhaid i chdi roi amser i mi...

Wendy - But you will leave Agnes, won't you?

Brian - Wrth gwrs. Ond edrycha: mae'n well i fi fynd. lawn?

Wendy - O.K. See you tomorrow afternoon?

Arwyn - Helo?

Brian - O! Helo...Sut mae hi, Arwyn?

Arwyn - Beth sydd wedi dy dynnu di yma?

Brian - Yyyy...Jest...Ymweld â rhywun...

Arwyn - Ymweld â pherthynas?

Brian - Ia...Ond ma'n rhaid i mi fynd. Hwyl.

Arwyn - Hwyl, Brian!

Synopsis

Wendy has been rushed into hospital, it was feared that she might have had a miscarriage. Brian, despite his promise to Agnes that the whole affair is over, pays her a visit in hospital. As he was leaving he came face to face with Arwyn Saunders:

Test yourself

1. What is the Welsh for 'by now'?
 - a) erbyn nawr
 - b) **erbyn hyn**
 - c) erbyn rwan
2. What's the form in north Wales for 'to pour with rain'?
 - a) bwrw'n ysgafn
 - b) bwrw glaw ychydig
 - c) **stido bwrw**
3. How would you translate 'Why not?' into Welsh?
 - a) **Pam lai?**
 - b) Pam ddim?
 - c) Pam na?
4. How would you say 'You're never 50 years of age' in Welsh?
 - a) **Dwyt ti erioed yn hanner cant oed?**
 - b) Dwyt ti byth yn hanner cant oed?
 - c) Dwyt ti erioed yn ddeugain oed?
5. How would you say 'better still' in Welsh?
 - a) **Gwell fyth**
 - b) Gwell iawn
 - c) Gwell na dim
6. What is the Welsh for 'I'm thirsty'?
 - a) Mae eisiau dw r arna i
 - b) Mae eisiau bwyd arna i
 - c) **Mae syched arna i**